**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd – Y Pwyllgor Cyllid
Peredur.OwenGriffiths@senedd.cymru

14 Hydref 2021

Annwyl Peredur,

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y dyraniadau diweddar yr wyf wedi bod yn eu gwneud o Gronfa Covid Llywodraeth Cymru.

Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion y meysydd diweddaraf a fydd yn derbyn cymorth ynghyd â'r dyraniadau a wnaed cyn hyn fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, y Gyllideb Derfynol a'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2021-22. Bydd y trefniadau ar gyfer trosglwyddiadau o gronfeydd wrth gefn yn cael eu ffurfioli fel rhan o'r Gyllideb Atodol nesaf.

Yn ddiweddar, rydym wedi cael cadarnhad y bydd cyllid canlyniadol ychwanegol yn cael ei drosglwyddo i Gymru. Mae'r rhain yn symiau hyd at £320 miliwn sy'n deillio o gynnydd i gyllidebau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Lloegr. Ar 30 Medi hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Chronfa Cymorth i Aelwydydd sydd wedi arwain at gyllid canlyniadol pellach o hyd at £25 miliwn. Bydd yr union symiau yn cael eu cadarnhau yn hwyrach yn ystod y flwyddyn ariannol hon fel rhan o'r broses Amcangyfrif Atodol. Mae'r oedi hwn o ran cadarnhau'r union symiau yn un enghraifft o'r ansicrwydd y soniais yn fras wrth y Pwyllgor Cyllid amdano ar 29 Medi. Dylid nodi hefyd bod y darlun mewn perthynas â chyllid canlyniadol yn newid yn rheolaidd oherwydd amrywiol gyhoeddiadau gan Lywodraeth y DU nad ydym bob amser yn cael rhybudd amdanynt ymlaen llaw.

Dros y misoedd nesaf byddwn yn parhau i fonitro gwariant a phwysau sy'n dod i'r amlwg fel rhan o'n prosesau arferol ar gyfer monitro cyllidebau, a byddwn yn gwneud dyraniadau ychwanegol i gyllidebau yn ôl yr angen. Os caiff rhagor o ddyraniadau sylweddol eu gwneud cyn y Gyllideb Atodol nesaf, byddaf yn rhoi diweddariadau pellach i'r Pwyllgor.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Atodiad 1**

*Cafodd dyraniadau blaenorol eu gwneud yn y Cyllidebau Drafft a Therfynol ar gyfer 2021-22 ac fel rhan o'r Gyllideb Atodol yn ystod y flwyddyn gyntaf

| MEG/Eitem | Blaenorol* £m | Newydd £m | Cyfanswm £m | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | |
| Olrhain Cysylltiadau | 60 | | 60 | |
| Cymorth y GIG | 380 | 411 | 791 | |
| Adferiad y GIG | 100 | 100 | 200 | |
| Adferiad Gofal Cymdeithasol | | 48 | 48 | |
| Y Gronfa Datblygiad Plant | | 4.5 | 4.5 | |
| Cymorth ar gyfer Plant a Chwarae | | 5 | 5 | Cyfalaf |
| Adferiad y GIG | | 40 | 40 | Cyfalaf |
| Plant a Phobl Ifanc | 2 | | 2 | |
| CYP Chwarae, Chwaraeon a Diwylliant | | 20 | 20 | |
| **Cyfanswm** | **542** | **628.5** | **1,170.5** | |
| **Cyllid a Llywodraeth Leol** | | | | |
| Prydau Ysgol Am Ddim | 23.3 | | 23.3 | |
| Cronfa Galedi ALlau | 206.6 | | 206.6 | |
| Cymorth Hunanynysu | | 4 | 4 | |
| Y Rhaglen Cefnogi Cynnar | | 7 | 7 | |
| Cronfa Galedi ALlau – Gofal Cymdeithasol | | 25.5 | 25.5 | |
| Rhyddhad Ardrethi Annomestig | 352.2 | | 352.2 | |
| **Cyfanswm** | **582.1** | **36.5** | **618.6** | |
| **Y Newid yn yr Hinsawdd** | | | | |
| Digartrefedd | 4 | 10 | 14 | |
| Cymorth Bysiau | 37.2 | | 37.2 | |
| Cymorth Rheilffyrdd | 70 | | 70 | |
| **Cyfanswm** | **111.2** | **10** | **121.2** | |
| **Addysg a'r Gymraeg** | | | | |
| Dal i Fyny Ysgolion | 51.2 | | 51.2 | |
| Plant a Phobl Ifanc | 4.5 | | 4.5 | |
| Dal i Fyny AB | 33 | | 33 | |
| Addysg Awyr Agored | 2 | | 2 | |
| Adnewyddu a Diwygio Addysg | 19.3 | | 19.3 | |
| Cymwysterau | | 3.6 | 3.6 | |
| Athrawon Newydd Gymhwyso | | 1.7 | 1.7 | |
| Iechyd Meddwl Ieuenctid | | 2.5 | 2.5 | |
| Ymchwil Addysg | | 1.7 | 1.7 | |
| AB – FSM | | 4.2 | 4.2 | |
| Dechrau'n Deg | | 15 | 15 | Cyfalaf |

| MEG/Eitem | Blaenorol £m | Newydd £m | Cyfanswm £m | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Unedau CO2/Osôn | | 6 | 6 | Cyfalaf |
| Addysg Awyr Agored | 2 | | 2 | |
| Cymwysterau | | 8 | 8 | |
| Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | | 13.4 | 13.4 | |
| Dysgwyr Ôl-16 | | 5 | 5 | |
| Cyfrifon Dysgu Personol | | 5 | 5 | |
| Amgylchedd Diogel o ran COVID | | 6.3 | 6.3 | |
| ADY | | 10 | 10 | |
| Y Gymraeg | | 2.2 | 2.2 | |
| Yr Eisteddfod | | 0.2 | 0.2 | |
| **Cyfanswm** | **112** | **84.8** | **196.8** | |
| | | | | |
| **Yr Economi** | | | | |
| Plant a Phobl Ifanc | 0.5 | | 0.5 | |
| Prentisiaethau | 16.5 | | 16.5 | |
| Cymunedau am Waith | 6 | | 6 | |
| Y Gronfa Ddiwylliant | 30 | | 30 | |
| ERF | 55 | | 55 | |
| ERF | 141 | | 141 | |
| Y Gronfa Chwaraeon a Hamdden | | 4 | 4 | |
| **Cyfanswm** | **249** | **4** | **253** | |
| | | | | |
| **Cyfiawnder Cymdeithasol** | | | | |
| Y Gronfa Cymorth Dewisol | 10.5 | | 10.5 | |
| Cymorth y Trydydd Sector | 6 | | 6 | |
| Cymru o Blaid Affrica | | 1.5 | 1.5 | |
| VAWDASV | | 1 | 1 | |
| Eirioli a Chynghori | | 1.5 | 1.5 | |
| Cydraddoldeb | | 1 | 1 | |
| **Cyfanswm** | **16.5** | **5** | **21.5** | |
| | | | | |
| **Cyfanswm y Dyraniadau** | **1,612.8** | **768.8** | **2,381.6** | |